
LLYNNOEDD HENDRE CAERDYDD
CARDIFF HENDRE LAKES

Gwasanaethir gan **Parcfordd Caerdydd**
Served by **Cardiff Parkway**



Lleisio eich barn

Llyfryn ymgysylltu â'r cyhoedd Llynnoedd Hendre Caerdydd a
Pharcfordd Caerdydd **20 Tachwedd - 18 Rhagfyr 2019**



Safle arfaethedig Llynnoedd Hendre Caerdydd a gorsaf drenau Parcfordd Caerdydd. Mae'r safle wedi'i neilltuo at ddefnydd cyflogaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd.

Llynnoedd Hendre Caerdydd a wasanaethir: gan orsaf drenau Parcfordd Caerdydd

Rydym wrthi'n datblygu'r cynlluniau ar gyfer Llynnoedd Hendre Caerdydd - ardal fusnes newydd arfaethedig i'r de o Barc Busnes Llaneirwg a gaiff ei gwasanaethu gan orsaf newydd Parcfordd Caerdydd.

Bydd y datblygiad hwn, a fydd yn destun cais cynllunio amlinellol, yn darparu ystod o fuddiannau ar gyfer yr ardal leol a'r rhanbarth ehangach, gan gynnwys swyddi, buddsoddiad a gwell cysylltiadau teithio.

Wrth i ni barhau i ddatblygu ein cynigion, hoffwn glywed eich barn am y prosiect. Rydym yn cynnal pedair wythnos o ymgysylltu â'r cyhoedd lle gallwch rannu eich safbwyntiau i'n helpu i lunio ein cynigion.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth i'ch helpu i roi adborth.

I rannu eich safbwyntiau, cwblhewch gerdyn sylwadau ar-lein neu ei anfon i FREEPOST HENDRE LAKES erbyn dydd Mercher 18 Rhagfyr.



Ynglŷn â'r safle

Mae safle Llynnoedd Hendre Caerdydd a Pharcffordd Caerdydd wedi'i leoli i'r de o Barc Busnes Llaneirwg. Mae prif reilffordd y Great Western i'r de o'r safle gyda Heol Las a Maerum i'r dwyrain a Cypress Drive a Llaneirwg i'r gogledd a'r gorllewin.

Mae Cyngor Caerdydd wedi neilltuo'r safle ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ei Gynllun Datblygu Lleol. Mae'n bosibl y caiff tua 5,000 o swyddi newydd eu creu os bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu'n llawn.

Mae'r safle hefyd yn ffinio â Pharc Llyn Hendre, sef tarddiad enw'r datblygiad. Mae hyn yn cyflwyno sawl cyfle ar gyfer mannau gwyrdd a gwella'r cysylltiadau â Llaneirwg a Trowbridge (gweler tudalen 7 am ragor o wybodaeth).

Mae sawl ffactor yn effeithio ar ddatblygiad y safle gan gynnwys cyfyngiadau megis peilonau trydan, cyfleuster nwy pwysedd uchel i'r dwyrain o'r safle a'i leoliad yng Ngwastadoedd Gwent, rhwydwaith o gaeau a ffosydd draenio a adferwyd o'r môr yng nghyfnod y Rhufeiniaid. Byddwch yn cadw rhywfaint o nodweddion naturiol y safle ac rydym yn bwriadu gwella'r amgylchedd lle y bo'n bosibl, er mwyn helpu pobl i fwynhau treftadaeth a phrydferthwch y dirwedd yn y pen draw. Gan ei fod yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, rydym yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol megis Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ein bod yn cyflawni'r nod hwn.

Trafnidiaeth a theithio

Ar hyn o bryd, mae pobl yn Llaneirwg a Trowbridge yn gyfyngedig o ran sut y gallant deithio o amgylch yr ardal leol a'r rhanbarth ehangach. Mae'r llwybrau i ganol dinas Caerdydd yn aml yn llawn tagfeydd gan mai'r orsaf drenau ranbarthol agosaf yw Casnewydd, sydd tua saith milltir i ffwrdd. Mae'r llwybrau bws i ganol dinas Caerdydd yn cymryd tua 65 o funudau. Bydd gorsaf drenau â gwasanaethau cyson yn lleihau amseroedd teithio yn sylweddol ar drafnidiaeth gyhoeddus i ganol Caerdydd, Casnewydd, Glynebwy a thu hwnt.

Gorsaf Parcffordd Caerdydd – cysylltu pobl, y rhanbarth a'r economi

Mae Parcffordd Caerdydd yn orsaf drenau arfaethedig newydd yn natblygiad Llynnoedd Hendre a disgwylir iddi groesawu mwy na 800,000 o deithwyr y flwyddyn.

Wedi'i lleoli saith munud yn unig o orsaf Caerdydd Canolog a Chasnewydd De Cymru, nod yr orsaf drenau newydd yw lleihau amseroedd teithio i'r ddwy ddinas yn sylweddol, yn ogystal â gwella cysylltedd ag ardaloedd eraill o'r wlad a'r DU yn ehangach. Bydd yr orsaf newydd hefyd yn rhan o Fetro De Cymru.

Bydd cymunedau cyfagos wedi'u cysylltu â'r datblygiad a'r orsaf drenau drwy lwybrau beicio a cherdded newydd. I'r bobl sy'n teithio ymhellach, byddai cyfleusterau bus yn ei gwneud hi'n haws i wasanaethau lleol alw heibio'r orsaf. Bydd cyfleusterau parcio a gollwng ar gyfer y bobl sy'n dod â char.

Drwy ddarparu trafndiaeth gyhoeddus well a gorsaf newydd a fydd yn cynnwys llefydd parcio, ein nod yw sicrhau ei bod mor gyfleus â phosibl i bobl barcio eu ceir a chyrraedd y trê. Y gobaith yw y bydd hefyd yn helpu i leihau tagfeydd pan fydd digwyddiadau mawr, megis gemau rygbi yn cael eu cynnal yng nghanol Caerdydd.

Er bod y prosiect ar gam cynnar, bydd Parcffordd Caerdydd yn dod ag amrywiaeth o fuddiannau hirdymor i'r ardal leol a'r rhanbarth ehangach, gan gynnwys:



Buddsoddiad economaidd:

Cyflwyno busnesau a buddsoddiadau newydd yn Ne Cymru



Gwell mynediad:

Galluogi pobl i gael cyfleoedd swyddi newydd ar y safle ac mewn lleoedd eraill



Gwell cysylltedd:

Cysylltu pobl ag ardaloedd eraill yng Nghymru a'r DU



Teithio llesol:

Annog pobl ledled de Cymru i deithio mewn ffordd iachach a mwy cynaliadwy



Argraff arlunydd o du mewn yr orsaf

Bydd yr orsaf yn agor yn
2023*

Mwy na
800,000
o deithwyr y flwyddyn



600 
o lefydd parcio yn yr
orsaf i ddechrau

Teithiau

7



munud o hyd i orsaf
**Caerdydd Canolog a
Chasnewydd De Cymru**



4 platfform

yn gwasanaethu llwybrau lleol a
llwybrau'r brif reilffordd i rannau
eraill o'r DU, gan gynnwys **Llundain,
Gogledd Cymru, Manceinion,
Bryste a De-orllewin Lloegr**

8



trên
trên yr awr i **Gaerdydd
a Chasnewydd**

*yn amodol ar ganiatâd cynllunio ac amserlenni adeiladu



Cynllun o'r safle sy'n nodi rhai o nodweddion allweddol datblygiad arfaethedig Llynnoedd Hendre.

- Mynediad i gerbydau
- - - Llwybrau cerdded a beicio
- Rhwydwaith o ffosydd
- ▬▬▬ Coridor gwyrdd arfaethedig ar gyfer gwaith lliniaru amgylcheddol

Ynglŷn â Llynnoedd Hendre

Bydd datblygiad Llynnoedd Hendre Caerdydd, yng nghanol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn ardal fusnes fywiog a fydd yn darparu cyfleusterau o ansawdd uchel megis ardaloedd busnes, caffis a bwytai o amgylch yr orsaf drenau, i gyd o fewn tirwedd naturiol eithriadol.

Mae'r ardal wedi'i neilltuo ar gyfer 90,000 metr sgwâr o safle cyflogaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd, a bydd yn cefnogi tua 5,000 o swyddi mewn amrywiaeth o ddiwydiannau.

Ein nod yw sicrhau bod y datblygiad yn gwella twf, gan gyfrannu at adfywio Dwyrain Caerdydd ac ardal Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, drwy ddenu buddsoddiadau mewn busnesau cadarn o ansawdd. Rydym am ddenu cyflogwyr o'r radd flaenaf o'r DU ac o dramor, yn ogystal â chefnogi busnesau cychwynnol a thechnolegau'r dyfodol.

Bydd Llynnoedd Hendre Caerdydd yn ddatblygiad gwirioneddol gynaliadwy ac yn cysylltu cymunedau presennol â'r orsaf gan greu ymdeimlad o berthyn i ardal. Rydym am greu amgylchedd atyniadol sydd wedi'i ddylunio'n dda i bobl weithio a chymdeithasu ynddo yn ogystal ag ymweld ag ef. Y prif nodweddion fydd:



Caffis, bwytai a chyfleusterau eraill i bobl sy'n defnyddio'r orsaf, sy'n gweithio yn Llynnoedd Hendre Caerdydd neu'r parciau busnes cyfagos presennol a'r gymuned leol



Llwybrau cerdded a beicio drwy'r datblygiad sy'n darparu cysylltiadau cynaliadwy o gymunedau yn Llaneirwg i'r orsaf



Dathlu'r rhwydwaith o ffosydd draenio sy'n rhedeg drwy'r safle a'i droi'n nodwedd tirlunio atyniadol â seddi a llwybrau i'r cyhoedd gan barchu ei phwysigrwydd ecolegol ar yr un pryd



Cysylltu ac ehangu Parc Llyn Hendre



Darparu manau storio diogel i feiciau a phwyntiau gwefru cerbydau trydan i'r cyhoedd a chefnogi trafndiaeth gyhoeddus wedi'i thrydaneiddio

Nod Llynnoedd Hendre Caerdydd yw rhoi blaenoriaeth i ffyrdd cynaliadwy o deithio a'i gwneud hi'n haws ac yn fwy cyfleus i bobl adael eu ceir gartref a defnyddio'r trên, y bws neu feic.

Rhannu eich barn

Hoffem ddiolch i chi am eich amser ac rydym yn eich annog i gymryd rhan drwy roi eich adborth ar y prosiect. Gallwch wneud hyn drwy gwblhau un o'n cardiau sylwadau.

Gyda'ch cymorth chi, gallwn greu datblygiad cwbl unigryw sy'n dod â buddsoddiad i'r rhanbarth, sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth newydd ac sy'n cysylltu pobl â thirwedd hanesyddol.

I leisio eich barn, cwblhewch gerdyn sylwadau drwy wneud y canlynol:



Cwblhau'r cerdyn mewn digwyddiad cyfarfod â'r tîm



Ei anfon dros e-bost i communityrelations@cardiffhendrelakes.com




Ei bostio i **FREEPOST HENDRE LAKES** (nid oes angen stamp arnoch)



Ei gwblhau ar ein gwefan: www.llynnoeddhendreaerdydd.com

Byddwn yn ystyried eich ymatebion a, lle y bo'n bosibl, yn eu cynnwys wrth i ni barhau â'r gwaith o ddylunio ar gyfer y cynllun. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol, statudol cyn cyflwyno cais cynllunio amlinellol y flwyddyn nesaf.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â ni:

 0800 464 0850

 communityrelations@cardiffhendrelakes.com

 **FREEPOST HENDRE LAKES**

 www.llynnoeddhendreaerdydd.com

Cael y wybodaeth ddiweddaraf am Llynnoedd Hendre Caerdydd

Byddwn yn ychwanegu mwy o wybodaeth am y datblygiad yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Er mwyn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, cofrestrwch ar gyfer ein rhestr bostio ar ein gwefan neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:

 @LLlynnoeddHendre

 Llynnoedd Hendre Caerdydd